**ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA**

**Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**

## Manylion y rheolydd sy'n cyflwyno

| | |
|---|---|
| Enw'r rheolydd | Llywodraeth Cymru |
| Pwnc / teitl yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data | Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal |
| Enw cyswllt ar gyfer y rheolydd | Alistair Davey |
| Hanes y Fersiwn | f2 5 Rhagfyr 2024 – Awdur: Tom Cleaver |

## Cam 1: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Esboniwch yn fras nodau'r prosiect a pha fath o waith prosesu y mae'n ei olygu. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi gyfeirio at ddogfennau eraill, megis y cynnig am brosiect, neu gysylltu â dogfennau o'r fath. Yn gryno, esboniwch pam y gwnaethoch chi nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Nodau'r prosiect

1.1. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â datblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd yn rhan o Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil"). Yn benodol, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data hwn yn ymwneud â darpariaethau ynglŷn â dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.

1.2. Un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu oedd 'dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd', ymrwymiad a roddwyd sylw iddo yn ddiweddarach drwy gynnwys darpariaethau yn y Bil. Yn benodol, mae'r Bil yn diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ("cartref plant"), gwasanaeth maethu neu wasanaeth llety diogel (ac eithrio awdurdod lleol) sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod yn endid nid-er-elw. Cyfeirir at y tri math hyn o endidau gwasanaethau yn y Bil fel 'gwasanaeth plant o dan gyfyngiad'. Y bwriad yw sicrhau na fydd darparwyr newydd er elw yn cael cofrestru i ddarparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad o fis Ebrill 2026 ymlaen.

1.3. Y nod sy'n sail i'r cynnig yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gofal plant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond yn hytrach, y caiff ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i bobl ifanc, cynnal y gwaith o ddatblygu a gwella gwasanaethau a meithrin ymhellach ddatblygiad proffesiynol y rhai sy'n darparu gofal.

1.4. Bydd y Bil yn hwyluso trefniadau trosiannol er mwyn caniatáu i wasanaethau preswyl neu ofal maeth er elw presennol barhau i weithredu ôl i'r Bil ddod i rym (yn amodol ar basio'r Bil yn y Senedd, disgwylir iddo gael y Cydsyniad Brenhinol yn y gwanwyn yn 2025). Bydd darparwyr er elw presennol yn parhau i gael eu cofrestru ar sail drosiannol. Nod hyn yw tarfu cyn lleied â phosibl ar fywydau plant sydd wedi setlo mewn lleoliadau preswyl a gofal maeth presennol, a chaniatáu ar gyfer lleoliadau newydd mewn gwasanaethau er elw mewn amgylchiadau pan nad oes lleoliadau priodol ar gael i'r plentyn mewn gwasanaeth a ddarperir gan ddarparwyr nid-er-elw.

1.5. O fis Ebrill 2030 ymlaen, y bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth i leoli plant mewn lleoliadau newydd (a elwir yn "lleoliadau atodol") gyda darparwyr er elw presennol. Ceir hefyd bŵer gwneud rheoliadau i osod amodau ychwanegol ar ddarparwyr er elw presennol yn ystod y cyfnod trosiannol hwn, gan gynnwys cyfyngu ar y math o wasanaeth y gallant ei ddarparu a'r disgrifiad o blant sy'n derbyn gofal y gallant eu lletya. Yn ogystal, bydd gan Weinidogion Cymru bŵer a arferir drwy reoliadau i ddod â'r trefniadau trosiannol i ben ar adeg briodol. Bydd yr adeg briodol yn cael ei phennu pan fydd Gweinidogion Cymru, ar ôl adolygu i ba raddau y mae'r sector wedi llwyddo i symud i ffwrdd o ddibynnu ar ddarpariaethau er elw sy'n weddill, yn penderfynu ei bod yn addas dod â'r trefniadau caniataol i ben.

1.6 Mae'r Bil hefyd yn gosod gofynion newydd ynghylch trefniadau ariannol darparwyr gwasanaethau (nad ydynt yn rhai awdurdodau lleol) sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau maethu neu gartrefi plant. Yn benodol, bydd y Bil yn darparu y caiff unrhyw daliadau afresymol neu anghymesur a ysgwyddir gan endid nid-er-elw eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol i gael ei gofrestru. Yn ei hanfod, bwriad hyn yw gwirio nad yw taliadau a wneir gan ddarparwr yn tanseilio mynd ar drywydd ei amcanion neu ddibenion a amlinellir yn adran newydd 6A(3) o Ddeddf 2016 a fewnosodir yn y Bil. Mae adran newydd 6A(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod amcanion neu ddibenion gwasanaeth plant o dan gyfyngiad y mae person yn dymuno ei ddarparu yn ymwneud yn anad dim â'r canlynol:

(a) lles plant, neu (b) unrhyw fudd cyhoeddus arall a gaiff ei ragnodir gan Weinidogion Cymru.

<u>Yr angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data</u>

1.7 Bydd yr elfen hon o'r ddeddfwriaeth, yn benodol y gofynion ynglŷn â lleoliadau atodol a threfniadau ariannol gwasanaethau plant o dan gyfyngiad nid-er-elw sy'n ymwneud â thaliadau afresymol neu anghymesur yn arwain at brosesu data personol sy'n bodloni Erthygl 35(1) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), sy'n nodi bod Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn ofynnol pan fo'r gwaith prosesu yn debygol o arwain at risg uchel. Mae Gweithgor Erthygl 29 wedi amlinellu naw maen prawf y dylid eu hystyried, a byddai bodloni dau neu ragor o’r rhain yn y mwyafrif o achosion yn arwain at yr angen i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Mae'r

data personol a gaiff ei brosesu yn bodloni meini prawf Gweithgor Erthygl 29 fel a ganlyn:

4. **Data sensitif neu ddata o natur bersonol iawn**. Caiff y maen prawf hwn ei fodloni yn sgil prosesu data categori arbennig yn ymwneud â tharddiad o ran hil / ethnigrwydd, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol / athronyddol, gwybodaeth iechyd, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol a chofnodion troseddol a llys unigolyn.

5. **Prosesu data ar raddfa fawr**. Caiff y maen prawf hwn ei fodloni yn sgil nifer posibl yr unigolion sy'n gysylltiedig â hyn, ystod yr eitemau data a brosesir ac ehangder daearyddol y gwaith prosesu.

7. **Data yn ymwneud ag unigolion sy'n agored i niwed**. Caiff y maen prawf hwn ei fodloni yn sgil prosesu data personol am blant o dan 12 oed a cheiswyr lloches yr ystyrir eu bod yn perthyn i garfan o'r boblogaeth sy'n agored i niwed, y mae angen gwarchodaeth arbennig arnynt.

1.8 Yn ogystal, mae Erthygl 35(3) o GDPR y DU yn amlinellu tri math o waith prosesu a fydd bob amser yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Mae'r cynnig hwn yn bodloni'r ail fath o waith prosesu:

- prosesu data categori arbennig neu ddata am droseddau ar raddfa fawr.

## Cam 2: Disgrifio'r gwaith prosesu

**Disgrifiwch natur y gwaith prosesu:** sut y byddwch yn casglu'r data, ei ddefnyddio, ei storio a'i ddileu? Beth yw ffynhonnell y data? A fyddwch yn rhannu data ag unrhyw un? Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi gyfeirio at ddiagram llif neu ffordd arall o ddisgrifio llifoedd data. Pa fathau o waith prosesu y nodwyd eu bod yn debygol o fod yn risg uchel sydd wedi'u cynnwys?

<u>Natur y gwaith prosesu – lleoliadau atodol</u>

2.1. Bydd y broses cymeradwyo lleoliadau atodol yn golygu y caiff ceisiadau gan awdurdodau lleol eu hanfon at Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Yn ymarferol, rhagwelir y bydd tîm yn Llywodraeth Cymru yn cael y dasg o ystyried y ceisiadau a gwneud penderfyniadau, o bosibl gyda mewnbwn cydweithwyr AGC. Byddai awdurdodau lleol yn prosesu'r data wrth lunio'r ceisiadau. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y plant sy'n cael eu lleoli. Ni fydd y ceisiadau'n cynnwys enwau plant unigol, ond mae'n bosibl, mewn rhai achosion, y gellid adnabod plentyn o'r wybodaeth a ddarperir. Er enghraifft, gellid adnabod plentyn pe byddai swyddog eisoes yn ymwybodol o rai o amgylchiadau achos plentyn a bod y rheini yn cyfateb â manylion dienw yn y cais ei hun. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg hwn yn isel iawn.

2.2. Caiff y data yn y ceisiadau hyn ei gasglu eisoes gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol o fewn y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn eu hardaloedd.

2.3. Nid yw manylion y trefniadau penodol o ran sut y bydd y broses gymeradwyo yn cael ei rhoi ar waith wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Y bwriad yw llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr a fydd yn amlinellu ffurf benodol y ceisiadau, gan gynnwys y math o wybodaeth y bydd angen ei chynnwys a threfniadau eu cyflwyno i Weinidogion Cymru (drwy Lywodraeth Cymru). Bydd canllawiau hefyd yn cael eu llunio i amlinellu'r broses ar gyfer ystyried ceisiadau o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trefniadau trin a chadw data.

<u>Natur y gwaith prosesu - trefniadau ariannol</u>

2.4. O ran y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â thaliadau afresymol neu anghymesur a wneir gan endid nid-er-elw, mae gan Weinidogion Cymru bŵer presennol i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwyr gwasanaethau (adran 32 o Ddeddf 2016). O ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil, bydd AGC (gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru) yn y dyfodol yn gallu ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am drafodion penodol neu drefniadau ariannol gael ei darparu gan ddarparwyr cartrefi plant a gwasanaethau maethu (nad ydynt yn rhai awdurdodau lleol) nid-er-elw. Byddai darparwyr gwasanaeth yn prosesu'r data hwn wrth baratoi'r wybodaeth hon.

2.5. Mae canllawiau gan AGC ar gael i ddarparwyr ac maent yn ymdrin â meysydd gan gynnwys prosesau cofrestru a ffurflenni blynyddol lle gellid gofyn am yr wybodaeth hon yn y dyfodol. Mae swyddogion wrthi'n ystyried a oes angen canllawiau penodol i ddarparwyr ynghylch y darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau afresymol neu anghymesur. Gallai'r rhain o bosibl amlinellu'r prosesau ar gyfer sut y gallai AGC ofyn am yr wybodaeth hon gan ddarparwyr a sut y dylai darparwyr ei chyflwyno (fformat ac ati). Bydd swyddogion hefyd yn ystyried pa brosesau mewnol y dylid eu sefydlu mewn perthynas ag ystyried yr wybodaeth a ddaw i law Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trefniadau trin a chadw data.

**Disgrifiwch gwmpas y gwaith prosesu:** beth yw natur y data, ac a yw'n cynnwys data categori arbennig neu ddata am droseddau? Faint o ddata y byddwch chi'n ei gasglu a'i ddefnyddio? Pa mor aml? Am ba hyd y byddwch chi'n ei gadw? Faint o unigolion sy'n cael eu heffeithio? Pa ardal ddaearyddol a gwmpesir?

Cwmpas y gwaith prosesu – lleoliadau atodol

2.6. Rhagwelir y bydd yr eitemau data personol a ganlyn yn cael eu prosesu gan awdurdodau lleol wrth baratoi ceisiadau ar gyfer lleoliadau atodol:

- Enw'r darparwr. Er mai dim ond enw'r darparwr fydd yr enw a roddir (hynny yw, enw'r cwmni), gallai'r enw hwn gynnwys manylion ynghylch cyfeiriad y darparwr. Byddai enw'r plentyn yn cael ei nodi ar ffurf ffugenw.

Yn ddibynnol ar y manylion sy'n berthnasol i'r cais penodol, gallai'r eitemau data personol categori arbennig a ganlyn hefyd gael eu prosesu gan yr awdurdod lleol:

- Tarddiad o ran hil / ethnigrwydd
- Safbwyntiau gwleidyddol
- Credau crefyddol / athronyddol
- Cyflyrau corfforol / iechyd meddwl
- Bywyd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol

Byddai'r eitemau data categori arbennig uchod yn cael eu nodi ar ffurf gyffredinol lle bynnag y bo modd, ac ni fyddai enwau'r unigolion o dan sylw yn cael eu cynnwys.

2.7. Yn y lle cyntaf, rhagwelir y bydd nifer sylweddol o geisiadau a fydd yn cynnwys data personol yn cael eu cyflwyno yn sgil y gwaith gweithredu arfaethedig o fis Ebrill 2030 ymlaen, a hynny yn sgil y ffaith bod llawer o awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn dibynnu'n helaeth ar ddarpariaethau er elw. Er bod awdurdodau lleol yn cael cymorth i leihau'r ddibyniaeth hon, mae'n debygol y bydd angen sylweddol i leoli plant yn y math hwn o ddarpariaeth o hyd, ac felly disgwylir nifer uchel o geisiadau am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru yn rheolaidd. Yn ystod y blynyddoedd o fis Ebrill 2030 ymlaen, disgwyliwn i nifer y ceisiadau, ac felly maint y data personol a gesglir, leihau wrth i'r sector symud i ffwrdd o ddibynnu ar y darpariaethau er elw hyn sy'n weddill.

2.8. Nid yw trefniadau cadw'r data wedi'u nodi ar wyneb y Bil, ond bydd y rhain yn cael eu hamlinellu yn y canllawiau sydd i'w datblygu ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

2.9. Ni allwn rag-weld union nifer yr unigolion a fyddai'n destun ceisiadau am leoliad atodol. Fodd bynnag, er cyd-destun, yn ôl Stats Cymru roedd 7,210 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru ar 31 Mawrth 2023, cynnydd o 55 (2%)

ers y flwyddyn flaenorol. Dangosodd cais unigryw ym mis Medi 2024 am ddata a gedwir gan AGC fod 333 o wasanaethau cartrefi gofal i blant sy'n derbyn gofal. Roedd 266 o wasanaethau yn rhai er elw a 67 yn wasanaethau awdurdodau lleol neu'n wasanaethau nid-er-elw. Yn ôl AGC, mae'r cynnydd yn y galw am ofal preswyl wedi mwy na dyblu ers 2012. Ym mis Medi 2024, roedd 44 o wasanaethau maethu, 22 ohonynt yn wasanaethau preifat gyda 5 ohonynt yn wasanaethau nid-er-elw a 22 ohonynt yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.

2.10. O dan y Bil, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cynlluniau digonolrwydd blynyddol a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru ar ffurf ddrafft ddim hwyrach na 4 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi. Rhaid i'r cynlluniau hyn gynnwys amcangyfrif o nifer y ceisiadau ar gyfer cymeradwyo lleoliadau atodol y mae'r awdurdod lleol yn rhag-weld y bydd yn eu gwneud gan felly roi eglurder ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar y niferoedd a ragwelir cyn eu cyflwyno. Disgwylir y bydd y cynlluniau cyntaf yn ofynnol erbyn mis Rhagfyr 2026 ar gyfer blwyddyn ariannol 2027-28.

2.11. Bydd y gofyniad am gynlluniau digonolrwydd yn gymwys i bob awdurdod lleol felly gallai gynnwys holl ardaloedd daearyddol Cymru, yn ogystal â lleoliadau atodol i ddarpariaeth er elw yn Lloegr.

<u>Cwmpas y gwaith prosesu – trefniadau ariannol</u>

2.12. Byddai eitemau data personol sy'n ymwneud â threfniadau ariannol gyda pherson perthnasol, neu ar ei ran, yn cael eu prosesu gan ddarparwyr gwasanaethau wrth ymateb i geisiadau gan AGC. Mae'r Bil yn nodi mai ystyr "person perthnasol" yw unrhyw un o'r canlynol:

- cyflogai, gweithiwr neu swyddog i'r darparwr gwasanaeth;
- person cysylltiedig â chyflogai, gweithiwr neu swyddog i'r darparwr gwasanaeth;
- pan fo'r darparwr gwasanaeth yn rhan o grŵp o bersonau sydd o dan berchnogaeth ar y cyd neu reolaeth ar y cyd, unrhyw berson o fewn y grŵp hwnnw.

Wedyn, byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru (yn ymarferol, gan swyddogion ar eu rhan) o ran a ystyrir bod y trefniadau ariannol hyn yn afresymol neu'n anghymesur ac o ganlyniad yn tanseilio eu statws yn sefydliad nid-er-elw. O ran penderfynu a ymrwymwyd i drefniadau ariannol afresymol neu anghymesur, mae'r Bil yn nodi bod rhaid rhoi sylw i'r canlynol:

- Gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â maint a gwerth y trefniant ariannol;
- Maint neu werth y trefniant o gymharu â faint o incwm y mae'r darparwr gwasanaeth yn ei gael o ddarparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad;
- Y gyfran o gyfanswm incwm y darparwr gwasanaeth sy'n dod o ddarparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â gwneud taliad neu ddyfarnu unrhyw fudd (uniongyrchol neu anuniongyrchol) sydd â gwerth ariannol.

O ganlyniad, byddai eitemau data personol sy'n ymwneud â'r uchod yn cael eu prosesu.

2.13. Rhagwelir y gellid dechrau casglu'r data personol sy'n ymwneud â'r trefniadau ariannol hyn yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Bil, y bwriedir i hynny ddigwydd yn y gwanwyn yn 2025. Wedi i'r Bil ddod i rym, disgwyliwn nifer mwy o geisiadau cofrestru yn y blynyddoedd cychwynnol a hynny wrth i ddarpar darparwyr nid-er-elw ddod i mewn i'r farchnad ac, o bosibl, darparwyr er elw presennol a fydd yn dewis ailsefydlu eu busnesau o dan un o'r modelau nid-er-elw a ganiateir gan geisio ailgofrestru yn unol â hynny.

2.14. Byddai'r gofynion o ran ystyried trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yn gymwys i'r rhai sydd wedi cofrestru yn ddarparwyr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad o bob ardal ddaearyddol yng Nghymru, oni bai eu bod yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol.

**Disgrifiwch gyd-destun y gwaith prosesu:** beth yw natur eich perthynas â'r unigolion? Faint o reolaeth fydd ganddynt? A fyddent yn disgwyl ichi ddefnyddio eu data fel hyn? A ydynt yn cynnwys plant neu grwpiau eraill sy'n agored i niwed? A oes pryderon blaenorol am y math hwn o waith prosesu neu ddiffygion diogelwch? A yw'r gwaith prosesu yn newydd mewn unrhyw ffordd? Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran technoleg yn y maes hwn? A oes unrhyw faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd ar hyn o bryd y dylech eu hystyried? A ydych chi wedi cofrestru ar gyfer unrhyw god ymddygiad cymeradwy neu gynllun ardystio (unwaith y bydd unrhyw rai wedi'u cymeradwyo)?

Cyd-destun y gwaith prosesu – lleoliadau atodol

2.15. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 2.3, caiff y data am unigolion, a fydd yn cael ei gynnwys mewn ceisiadau am leoliadau atodol, ei gasglu eisoes gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol o fewn deddfwriaeth bresennol ynghylch diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn eu hardaloedd.

2.16. O ran yr effaith ar unigolion, byddai ceisiadau yn cynnwys gwybodaeth am y plant hynny y mae awdurdodau lleol yn dymuno eu lleoli mewn lleoliad atodol. Gallai hyn gynnwys eitemau data personol categori arbennig pan fo hynny'n berthnasol i'r cais. Ni fyddai gan yr unigolion hynny reolaeth dros y data, fodd bynnag, byddai enw'r plentyn yn cael ei ddarparu ar ffurf ffugenw a byddai data arall yn cael ei wneud yn ddienw cyn belled ag y bo modd. Bydd angen i ddarparwyr a'r plant y mae eu data yn cael ei brosesu mewn perthynas â lleoliadau atodol gael yr wybodaeth briodol am breifatrwydd o ran sut y bydd eu data personol yn cael ei brosesu o dan y broses lleoliadau atodol newydd. Dylai fod gan awdurdodau lleol hysbysiadau preifatrwydd eisoes ar waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd angen diweddaru'r rhain i adlewyrchu'r dibenion newydd hyn. Bydd hyn yn cael ei egluro mewn canllawiau, yn ogystal â'r angen i ddarparwyr gael yr wybodaeth briodol am breifatrwydd.

2.17. Yn broses newydd, bydd rhannu data rhwng awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer lleoliadau atodol yn ddefnydd newydd o ddata. Fodd bynnag, byddai rhannu'r math hwn o ddata yn rhywbeth a ddisgwylir yn unol â phrosesau presennol ar gyfer rhannu data rhwng sefydliadau sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol sy'n diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn eu hardaloedd.

2.18. Nid oes unrhyw bryderon penodol ymlaen llaw yn ymwneud â rhannu'r wybodaeth hon, ac eithrio cydnabod natur hynod sensitif y data. Dyna'r rheswm felly dros y bwriad i wneud y data yn ddienw pan fo hynny'n bosibl yn ogystal â llunio canllawiau penodol ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod trefniadau cadw a rhannu cadarn a chyson ar waith, yn unol ag arferion gorau.

Cyd-destun y gwaith prosesu – trefniadau ariannol

2.19. Fel y nodir ym mharagraff 2.4, mae gan Weinidogion Cymru bŵer sy'n bodoli eisoes yn adran 32 o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r Bil yn diwygio Deddf 2016 i ddarparu bod trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yr ymrwymir iddynt gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn dystiolaeth y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth benderfynu a yw'r darparwr yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.12 yn nodi'r eitemau data personol o ran trefniadau ariannol person perthnasol y byddai'n rhaid i ddarparwyr eu darparu i AGC yn y dyfodol.

2.20. O ran yr effaith ar unigolion, gallai gwybodaeth a ddarperir i AGC gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chyflogau neu unrhyw daliadau bonws neu fuddion ariannol eraill sy'n ymwneud â'r rhai yn y sefydliad neu sefydliadau cysylltiedig. Ni fyddai gan yr unigolion hynny reolaeth dros y data ar ôl ei ddarparu, ond byddai canllawiau penodol ar gyfer darparwyr a Llywodraeth Cymru yn cael eu llunio i sicrhau bod trefniadau cadw a rhannu cadarn a chyson ar waith, yn unol ag arferion gorau. Byddai unrhyw wybodaeth a gesglir yn rhan o broses reoleiddio AGC (cofrestru neu arolygu) yn cael ei chadw yn unol â'i pholisi cadw.

| **Disgrifiwch ddibenion y gwaith prosesu:** beth ydych chi eisiau ei gyflawni? Beth yw'r effaith y bwriedir ei chael ar unigolion? Beth yw manteision y gwaith prosesu – i chi, ac yn ehangach? |
| --- |
| <u>Dibenion y gwaith prosesu – lleoliadau atodol</u><br><br>2.21. Bwriad lleoliadau atodol yw sicrhau y gall awdurdodau lleol barhau i leoli plant mewn lleoliad er elw yn ystod y cyfnod trosiannol os ystyrir mai'r lleoliad penodol hwnnw yw'r unig ffordd o ddiwallu anghenion llesiant y plentyn. Gallai hyn fod oherwydd nad oes darpariaeth nid-er-elw addas ar gael eto o fewn ardal benodol gan fod y broses o'i sefydlu yn parhau yn ystod y cyfnod trosiannol (er enghraifft, darparwyr nid-er-elw newydd yn dal i fynd drwy'r broses gofrestru, awdurdodau lleol yn dal i fod yn y broses o greu cartrefi plant mewnol newydd ac ati). O ganlyniad, bydd hyn o fudd i blant gan y bydd yr awdurdod lleol yn gallu eu lleoli yn y lleoliad mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion llesiant.<br><br>2.22. Bydd ceisiadau am leoliadau atodol hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fonitro nifer y plant a leolir mewn lleoliadau er elw yn ystod y cyfnod trosiannol hwn fel y gallant asesu cynnydd awdurdodau lleol unigol o ran sicrhau digon o ddarpariaeth nid-er-elw yn eu hardaloedd unigol, yn ogystal â'r cynnydd ledled Cymru gyfan. Bydd hyn hefyd o gymorth wrth benderfynu ynghylch pa bryd fyddai'r adeg fwyaf priodol i ddod â'r cyfnod trosiannol i ben (yr adeg pan na chaiff darparwyr er elw barhau i weithredu ledled Cymru). Bydd y ceisiadau penodol o ran lleoliadau atodol a'r broses ymgeisio yn galluogi Gweinidogion Cymru i fonitro'r cynnydd tuag at ddod â darpariaeth er elw i ben mewn ffordd gyson drwy weithdrefnau penodol sy'n rhoi eglurder i awdurdodau lleol a darparwyr ynghylch trefniadau rhannu data.<br><br><u>Dibenion y gwaith prosesu – trefniadau ariannol</u><br><br>2.23. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gofyniad newydd ar gyfer ystyried trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yr ymrwymir iddynt gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad wrth benderfynu a yw'r darparwr yn berson addas a phriodol. Trwy ei gwneud yn ofynnol i brosesu gwybodaeth ynghylch trefniadau ariannol unigolion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu a yw unrhyw un o'r trefniadau hyn yn afresymol neu'n anghymesur ac os felly, cymryd camau priodol. Yr effaith a fwriedir bydd atal gwasanaethau rhag gwneud taliadau afresymol neu anghymesur a fyddai'n anghyson â hwy yn gorfod cael amcanion neu ddibenion sy'n ymwneud yn bennaf â lles plant, sef un o amcanion allweddol y ddeddfwriaeth newydd. |

## Cam 3: Y broses ymgynghori

**Ystyriwch sut i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol:** disgrifiwch pa bryd a sut y byddwch yn ceisio barn unigolion – neu rhowch resymau pam nad yw'n briodol gwneud hynny. Pwy arall yn eich sefydliad y mae angen ichi ei gynnwys? A oes angen ichi ofyn i'ch proseswyr helpu? A ydych chi'n bwriadu ymgynghori ag arbenigwyr ym maes diogelwch gwybodaeth, neu unrhyw arbenigwyr eraill?

3.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y cynigion deddfwriaethol sylfaenol am gyfnod o 12 wythnos, rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022. Yn dilyn cyflwyno'r Bil, a oedd yn cynnwys y cynigion penodol ynghylch lleoliadau atodol ac ystyried trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach rhwng 24 Mai a 28 Mehefin 2024 yn rhan o waith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

3.2. Bwriadwn weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys AGC ac awdurdodau lleol, wrth inni ddechrau'r broses o lunio'r canllawiau manwl ar gyfer lleoliadau atodol a sut y bydd AGC yn ystyried trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yn rhan o'r prawf person addas a phriodol. Yn ogystal, byddwn yn parhau i ymgynghori'n agos â'n cydweithwyr yn yr Uned Hawl i Wybodaeth fewnol (fel y gwnaethom wrth baratoi'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data hwn), yn ogystal ag ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau.

## Cam 4: Asesu rheidrwydd a chymesuredd

**Disgrifiwch fesurau cydymffurfio a chymesuredd, yn benodol:** beth yw eich sail gyfreithlon ar gyfer y gwaith prosesu? A yw'r gwaith prosesu yn cyflawni eich diben mewn gwirionedd? A oes unrhyw ffordd arall o gyflawni'r un canlyniad? Sut y byddwch yn atal cynnydd mewn swyddogaethau? Sut y byddwch yn sicrhau ansawdd data ac yn lleihau faint o ddata a gesglir? Pa wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i unigolion? Sut y byddwch yn helpu i hyrwyddo'u hawliau? Pa fesurau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod proseswyr yn cydymffurfio? Sut ydych chi'n diogelu unrhyw drosglwyddiadau rhyngwladol?

4.1. Y sail statudol ar gyfer prosesu'r data ar gyfer lleoliadau atodol a threfniadau ariannol yw'r gofynion yn y Bil, felly mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (erthygl 6(c)). Mae'r gwaith prosesu hefyd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasgau a gyflawnir er budd y cyhoedd (erthygl 6(e) GDPR).

4.2. O ran data o natur sensitif, mae Erthygl 9(2)(b) o GDPR yn gymwys (mae gwaith prosesu yn angenrheidiol at ddibenion gweithredu'r rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol y rheolydd data neu'r sawl sy'n destun y data ym maes cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a chyfraith amddiffyniadau cymdeithasol cyn belled â'u bod wedi'u hawdurdodi gan gyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth sy'n darparu mesurau diogelu priodol ar gyfer hawliau a buddiannau sylfaenol y sawl sy'n destun y data). Yn ein barn ni, bydd gofynion adran 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018 a pharagraff 1 iddi yn cael eu bodloni (gan dybio bod gan y rheolydd ddogfen bolisi briodol ar waith sy'n bodloni gofynion paragraff 39 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018).

4.3. Ni nodwyd unrhyw ddatrysiad arall i fodloni'r gofynion yn y Bil. O ran lleoliadau atodol, mae'r Bil yn amlinellu pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu wrth wneud cais i gymeradwyo lleoliad atodol. Mae hyn yn cynnwys eglurhad ynghylch pam y mae'r awdurdod lleol o'r farn na ddylai leoli'r plentyn sy'n derbyn gofal gydag unrhyw ddarparwr maeth nid-er-elw neu ddarparwr cartref plant nid-er-elw (fel y bo'n gymwys) sydd ar gael. Mae'n ofynnol prosesu data personol categori arbennig sy'n ymwneud â phlant er mwyn darparu'r eglurhad angenrheidiol ynghylch yr angen am y lleoliad atodol. Mae hyn oherwydd y byddai angen i'r awdurdod lleol gyfeirio at anghenion gofal a chymorth ac amgylchiadau unigol plentyn penodol i egluro pam mai dim ond un math penodol o leoliad sy'n addas. Yn unol â pharagraff 2.22, ystyriwyd bod darparu'r wybodaeth hon i Weinidogion Cymru hefyd yn angenrheidiol er mwyn eu galluogi i fonitro nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau er elw yn ystod y cyfnod trosiannol hwn fel y gallant asesu cynnydd awdurdodau lleol unigol o ran sicrhau digon o ddarpariaeth nid-er-elw yn eu hardaloedd unigol, yn ogystal â'r cynnydd ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn angenrheidiol gan fod y Bil yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu diwedd y cyfnod trosiannol, sef penderfyniad a fydd yn cael ei lywio gan y cynnydd a wneir tuag at ddefnyddio darpariaethau nid-er-elw a nodir gan nifer y ceisiadau am leoliadau atodol.

4.4. O ran prosesu data ariannol mewn perthynas ag unigolion, mae hyn yn ofynnol er mwyn galluogi AGC i ystyried y gofyniad newydd ynghylch a yw trefniadau ariannol yn afresymol neu'n anghymesur wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol i

fod yn ddarparwr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad. Heb y data hwn, ni fyddai AGC yn gallu gwneud y penderfyniad hwn.

4.5. Bydd y risg o gynnydd mewn swyddogaethau yn cael ei lliniaru drwy lunio canllawiau sy'n ymwneud â chasglu'r data. Bydd hyn yn cynnwys, yn benodol, y dibenion y dylid casglu'r data ar eu cyfer, gan ei gyfyngu i'r dibenion hynny a eglurir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data hwn.

4.6. Bydd ansawdd y data yn cael ei sicrhau drwy lunio canllawiau a fydd yn pennu lefel y manylion a ddisgwylir a'r fformatau y dylid darparu'r data ynddynt. Bydd hyn yn rhoi eglurder i awdurdodau lleol, unigolion a darparwyr ac yn lleihau'r risg o ddarparu data mewn fformat anghywir, neu ddarparu data ychwanegol diangen.

4.7. Mae'r union drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol mewn perthynas â lleoliadau atodol o ran a ydynt yn cwblhau ceisiadau ar gyfer pob lleoliad a ddefnyddir yn parhau i gael eu hystyried, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y gwaith o lunio'r canllawiau cysylltiedig. Yn yr un modd, bydd yr union drefniadau ar gyfer monitro trefniadau ariannol hefyd yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses o lunio'r canllawiau hynny, gan ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol mewnol ac allanol fel y bo'n briodol.

## Cam 5: Nodi ac asesu risgiau

| **Disgrifiwch ffynhonnell y risg a natur yr effaith bosibl ar unigolion.** Dylech gynnwys y risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig yn ôl yr angen. | **Y tebygolrwydd o niwed** | **Difrifoldeb y niwed** | **Y risg gyffredinol** |
|---|---|---|---|
| Rhannu mwy o ddata personol / data categori arbennig nag sy'n angenrheidiol at ddibenion gwneud cais am leoliad atodol neu ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Annhebygol, oherwydd bydd y canllawiau yn nodi'r lefel briodol o ddata sydd i'w gynnwys mewn cais am leoliad atodol, ac ar gyfer y broses o ran ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Isel iawn | Isel |
| Risg o golli data yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon, datgelu data heb awdurdod neu gael mynediad heb awdurdod at ddata mewn perthynas â data a rennir at ddibenion gwneud cais am leoliad atodol neu ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Risg bosibl oherwydd er y caiff canllawiau eu rhoi ar waith mewn perthynas â cheisiadau am leoliadau atodol a'r broses ar gyfer ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol, ni ellir diystyru achosion o dorri diogelwch data sy'n deillio o weithred fwriadol neu wall dynol. | Isel iawn | Isel |
| Risg yn gysylltiedig â rhoi mesurau diogelwch technegol neu sefydliadol annigonol ar waith, gan arwain at fynediad heb awdurdod at ddata personol neu ddatgelu data personol yn ystod y broses o wneud cais am leoliad atodol neu'r broses ar gyfer ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Annhebygol, oherwydd bydd y canllawiau yn pennu mesurau diogelwch priodol i atal, cyn belled ag y bo modd, fynediad heb awdurdod at ddata sydd wedi'i gynnwys mewn ceisiadau am leoliadau atodol, ac a ddarperir ar gyfer ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Isel iawn | Isel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cadw heb awdurdod ddata sy'n ymwneud â cheisiadau am leoliad atodol neu'r broses o ran ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Annhebygol, oherwydd bydd y canllawiau yn amlinellu'r trefniadau cadw data ar gyfer data personol a brosesir at ddibenion gwneud ceisiadau am leoliadau atodol neu ystyried trefniadau ariannol a allai fod yn anghymesur neu'n afresymol. | Isel iawn | Isel |

## Cam 6: Nodi mesurau i leihau risg

| **Nodwch fesurau ychwanegol y gallech chi eu cymryd i leihau neu ddileu risgiau y nodwyd eu bod yn risg ganolig neu uchel yng ngham 5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Risg** | **Yr opsiynau i leihau neu ddileu'r risg** | **Yr effaith ar y risg** | **Y risg weddilliol** | **Cymeradwywyd y mesur** |

Amherthnasol – ni nodwyd unrhyw risgiau canolig na risgiau uchel.